**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1391
Ein cyf HIDCC/01369/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

19 Awst 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf 2025, ynglŷn â'r ddeiseb P-06-1391 - Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion, a'ch cais am ragor o wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer symud ymlaen â'r gwaith hwn.

Ar 24 Mehefin 2025 cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf i'r ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid. Fel y gwyddoch, byddwn yn defnyddio dull graddol i gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, asiantaethau gweithredol, diwydiant a'r trydydd sector.

Fy ffocws ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon fydd ar datblygu ceisiadau ar gyfer rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid, gan gynnwys canolfannau achub, llochesi, canolfannau adsefydlu ac ailgartrefu ac ar gyflawni ein blaenoriaethau eraill ar gyfer lles anifeiliaid, sydd wedi'u nodi yn ein cynllun lles anifeiliaid pum mlynedd ar gyfer Cymru, 2021-2026.

Wrth ganolbwyntio ar sefydliadau lles anifeiliaid yng ngham un, rwy'n gobeithio sianelu ymdrechion i fannau lle gall rheoleiddio ddarparu'r budd mwyaf, gan ystyried y dystiolaeth, y safbwyntiau a'r wybodaeth a gyflwynwyd a'r materion penodol sy'n codi o ddiffyg goruchwyliaeth a chefnogaeth reoleiddiol ar hyn o bryd.

Byddwn yn ystyried twtio anifeiliaid anwes yn ystod cam eilaidd y model cenedlaethol, ac nid yw hynny ar hyn o bryd o fewn cwmpas ein blaenoriaethau ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon. Rwy'n cydnabod yr angen am safonau cyson, cymesur a gorfodadwy i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid ac rwy'n awyddus i weld y gwaith yn symud yn ei flaen cyn gynted ag y bo modd.

Mae hyn yn garreg filltir arwyddocaol yn ein hymrwymiad i wella safonau lles anifeiliaid ledled Cymru. Er na fydd yn digwydd dros nos, rwy'n hyderus y bydd y model cenedlaethol yn effeithio ar gynnydd cadarnhaol i filoedd o anifeiliaid ledled Cymru, ac rwy'n ymrwymedig i'w wneud yn iawn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diolch am ysgrifennu ataf i. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig